

Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Sgiliau Iaith Gymraeg

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi defnyddio methodoleg rheoli datgelu ystadegol newydd ar gyfer Cyfrifiad 2021. O ganlyniad, ni fydd ffigurau a grëir drwy grynhoi daearyddiaethau lefel is yn cyfateb i ffigurau a ryddhawyd ar gyfer daearyddiaethau uwch. Nid yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn argymhell cydgrynhoi daearyddiaethau lefel is i greu daearyddiaethau uwch.

Sgiliau Iaith Gymraeg	Sir Gaerfyrddin				Cymru			
	2011		2021		2011		2021	
Pob person 3 oed a throsodd	177,642		182,719		2,955,841		3,018,172	
Gallu siarad Cymraeg	78,048	43.9%	72,838	39.9%	562,016	19.0%	538,296	17.8%
Dim sgiliau yn y Gymraeg	74,355	41.9%	85,287	46.7%	2,167,987	73.3%	2,259,017	74.8%
*Yn deall Cymraeg llafar yn unig	20,716	11.7%	19,995	10.9%	157,792	5.3%	156,762	5.2%
Yn siarad Cymraeg ond ddim yn ei darllen na'i hysgrifennu	11,919	6.7%	10,578	5.8%	80,429	2.7%	68,391	2.3%
Yn siarad ac yn darllen Cymraeg ond ddim yn ei hysgrifennu	7,436	4.2%	5,031	2.8%	45,524	1.5%	33,971	1.1%
Yn siarad, yn darllen ac yn ysgrifennu Cymraeg	58,321	32.8%	56,493	30.9%	430,717	14.6%	429,313	14.2%

Dadansoddiad:

- Bellach mae gan Sir Gaerfyrddin yr ail nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg ac rydym yn parhau y pedwerydd uchaf o ran canran o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg.
- Mae nifer y bobl yn Sir Gaerfyrddin sy'n gallu siarad Cymraeg wedi gostwng 4 pwynt canran ers 2011. Mae nifer y siaradwyr Cymraeg hefyd wedi gostwng ledled y wlad i 538,296, ond dim ond gostyngiad o 2.8 pwynt canran yw hyn. Mae llawer o ffactorau sy'n cyfrannu at y gostyngiad, megis poblogaeth a mudo.
- Mae'r rhai yn Sir Gaerfyrddin a ddywedodd nad oedd ganddynt unrhyw sgiliau yn y Gymraeg wedi cynyddu 4.8 pwynt canran i 46.7% o 41.9% yn 2011, sy'n newid % uwch o gymharu â gostyngiad cenedlaethol o 1.5 pwynt canran,
- "Deall Cymraeg llafar yn unig" yw'r categori a welodd y gostyngiad isaf, gyda gostyngiad o 0.8 pwynt canran. Mae'r gostyngiad ymylol hwn yn awgrymu bod y rhai sy'n deall Cymraeg wedi aros yn weddol sefydlog yn y 10 mlynedd diwethaf.

Diffiniad:

* Mae 'yn deall Cymraeg llafar yn unig' yn golygu bod y person yn deall Cymraeg llafar ond heb feddu ar unrhyw sgiliau eraill yn yr iaith. Gallai pobl roi tic ar gyfer mwy nag un opsiwn, felly gallai ymddangos yn y tabl sawl gwaith.